



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health  
a gofal cymdeithasol | and social care

# EIN 100 DIWRNOD CYNTAF

## EBRILL 2023



# EICH LLAIS MEWN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## Fformatau hygyrch

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith amgen, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa:

02920 235558

[enquiries@llaiscymru.org](mailto:enquiries@llaiscymru.org)

Bwrdd Llais

3ydd Llawr, 33-35 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9HB

[www.llaiscymru.org](http://www.llaiscymru.org)

[www.llaiswales.org](http://www.llaiswales.org)



# RHAGAIR



O 1 Ebrill 2023 bydd gan bobl Cymru gorff annibynnol newydd. Sefydlwyd LLAIS gan Lywodraeth Cymru i godi grym a dylanwad lleisiau pobl sy'n byw yng Nghymru wrth siapio'u gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel Cadeirydd Llais, rwy'n falch o gyhoeddi ar ran fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd ein Datganiad o Fwriad, gan amlinellu ein ffocws yn ystod y 100 diwrnod cyntaf o ymgysylltu. Mae ein datganiad yn nodi cyfeiriad clir ac uchelgeisiol o deithio ar gyfer y corff cenedlaethol newydd hwn.

Fel corff annibynnol, rydym am fod yn llais cynhwysol, annibynnol, ac arweiniol ar gyfer

**Rydyn ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.**

pobl sy'n canolbwyntio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym am i'n gweithgareddau gael effaith barhaol yng Nghymru.

Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth i greu mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig sy'n diwallu anghenion amrywiol pobl ac sy'n gwella iechyd a lles pobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru.

Byddwn yn dysgu o, ac yn adeiladu ar waith y 7 'Cyngor Iechyd Cymuned' oedd yn cynrychioli barn cleifion y GIG yng Nghymru am bron i 50 mlynedd. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol.

Mae system iechyd a gofal cymdeithasol ein cenedl yn mynd trwy newid sylweddol.

Byddwn ni'n hyrwyddo hawliau a disgwiliadau'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau amrywiol ledled Cymru i sicrhau bod eu lleisiau yn ganolog i'r newidiadau hyn.





# SEFYDLU SYLFAEN GADARN



Yn ystod ein 100 diwrnod cyntaf o ymgysylltu, rydym am weithio gyda phobl yng Nghymru i adeiladu sylfaen gref lle mae parch at ei gilydd, cynwysoldeb ac annibyniaeth yn gyrru popeth a wnawn.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda phobl, cymunedau, a'n partneriaid ym mhob rhan o Gymru i'n helpu i benderfynu sut y dylem gydweithio a gydag eraill i ddarparu llais cryfach i bobl yn ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Byddwn ni'n:

- lansio ymgynghoriad cyhoeddus cenedlaethol ar ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, a'n blaenoriaethau strategol arfaethedig. Byddwn ni'n mynd ati i chwilio am fewnbwn gan leisiau a chymunedau amrywiol Cymru.
- gweithio gyda phobl yn ein cymunedau i greu ffyrdd syml a hygyrch i bobl Cymru gysylltu â ni a derbyn ein gwasanaethau

## Byddwn ni'n:

- sefydlu presenoldeb rhanbarthol cryf ym mhob un o'r ardaloedd canlynol

 Caerdydd a Bro Morgannwg

 Gwent

 Gogledd Cymru

 Gorllewin Cymru

 Cwm Taf Morgannwg

 Castell-Nedd Port Talbot ac Abertawe

 Powys

Mae'r rhain yn cyfateb i'r ardaloedd a gwmpesir gan y 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, sy'n dod â chyrrff y GIG, awdurdodau lleol a'r 3ydd sector ynghyd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal ddaearyddol

- cyhoeddi datganiadau rhanbarthol ar flaenoriaethau a gweithgareddau mewn iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd gan yr hen Gyngorau Iechyd Cymuned.
- gweithio gyda'n pobl a'r cyhoedd i ddatblygu ein gwerthoedd trefnu a sefydlu diwylliant iach, cynhwysol. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi polisi amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i gefnogi tegwch yn Llais ac ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd digidol o weithio ymhellach sy'n cefnogi ein gweithgareddau.
- lansio ymgyrch gwirfoddoli genedlaethol i ddenu cymuned amrywiol o bobl i helpu i lywio a chefnogi'r gwaith o gyflwyno ein gweithgareddau.
- lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n rôl annibynnol wrth sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y meysydd sydd fwyaf pwysig i bobl sy'n byw yng Nghymru.
- datblygu a chytuno ar sut y byddwn yn cydweithio ac yn cydweithredu ag Awdurdodau Lleol Cymru, cyrrff y GIG a phartneriaid allweddol eraill.



- anfon tystiolaeth i ymchwiliad Covid-19 y DU ar beth glywodd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru gan bobl sy'n byw yng Nghymru am eu profiadau yn sgil pandemig Covid-19.



- penodi i rolau newydd i adeiladu gallu ein sefydliad i gyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau ehangach.

- cyhoeddi ein hymateb i ymgynghoriad

Llywodraeth Cymru ar ei God Ymarfer drafft ar fynediad i fangre.

- datblygu trefniadau partneriaeth gyda chyrff eraill y DU sy'n rhan o gynrychioli lleisiau pobl mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru i glywed gan bobl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn drwy raglen weithgareddau gynnar, wedi'u cynllunio i anelu at weithio gyda phobl, cynrychiolwyr cymunedol a grwpiau ym mhob rhan o Gymru.

- rhannu'r hyn rydyn ni'n ei glywed gyda'r GIG, awdurdodau lleol, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eraill yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol, fel bod barn a phrofiadau pobl yn sbarduno'r gwaith o ddatblygu a darparu gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb.



- cefnogi pobl i fynegi eu pryderon am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol.



# EIN 100 DIWRNOD CYNTAF



Wrth gyhoeddi ein cynllun 100 diwrnod rydym am dynnu sylw at ein hymrwymiad a'n hymgyrch i gymryd camau cynnar fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru. Byddwn ni'n hyrwyddo eu hawliau a'u disgwyliadau i allu cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw yn y ffordd maen nhw ei angen.

**Rhaid i leisiau cryf pobl Cymru fod wrth galon system iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol, wedi ei uno ar gyfer Cymru.**

